

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS LUN, 19<sup>EG</sup> HYDREF 2020 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)  
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, Bob Barton, C. Brockley, Gemma Campbell, Mrs H. Fleet; D. Howcroft, C. Hughes, D. Jones, A. Khan, A. Mason, C. Matthews, A. Pearson, J. Pearson, M. Pickard, P Richards, M. Tasker, M. Worth..

**SWYDDOGION:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref  
Mrs R. Dudley. Clerc Cynorthwyol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Andrew Wilkinson, Swyddog Traffig CBS Conwy  
Rob Spaul, Menna Thomas, Judi Greenwood, Ymddiriedolaeth Datblygu Gogledd Cymru  
Nifer o Aelodau'r Cyhoedd

**101/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

- a) Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs M. Jones, H. Meredith a Mrs K. Swindon.
- b) Cafwyd ennyd o dawelwch er cof am y Cynghorydd Sirol Dave Cowans a fu farw'n ddiweddar.

**102/20 Cyhoeddiadau:**

Nid oedd gan y Maer unrhyw gyhoeddiadau ac eithrio cadarnhau bod y Tîm Ymateb i Argyfwng y Pandemig (TYAP) yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd.

**103/20 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**104/20 Ymwelwyr i'r Cyngor:**

a) **Ymddiriedolaeth Datblygu Gogledd Cymru:**

Croesawyd Rob, Menna a Judi i'r cyfarfod gan y Maer. Fel Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, agorodd Rob trwy ddiolch i'r Cyngor am ganiatáu iddynt ddod i annerch y cyfarfod. Rhoddodd diweddariad byr am yr Ymddiriedolaeth a grëwyd yn 2017 ac sydd a'i ganolfan nawr ar Ffordd Abergele yn hen adeilad AA Cash and Carry. Y weledigaeth yw creu portffolio o brosiectau adnewyddu sydd wedi plethu gydag ethos a yrrir gan y gymuned. Y nod (efo Rhif 7) yw iddo fod yn ganolbwynt creadigol / technegol croesawgar, i godi safon sgiliau a dyheadau'r gymuned, i feithrin datblygiadau cychwynnol newydd, i annog y cenedlaethau ieuengaf i gyfarfod ac i rannu syniadau ac adeiladu plattform ehangach fel gall Bae Colwyn elwa o gyfleoedd technegol ac arloesol a chefnogi anghenion y gymuned, fel gall pobl addasu a dysgu technoleg newydd ag addasu eu busnesau a'u hobiau.

Mae pedwar aelod ar y bwrdd ac maent yn deall y tirlun presennol yn iawn a'r gallu ganddynt i wneud gwahaniaeth. Cefndir Rob yw dylunio gemau, dylunio gwefannau a chynhyrchu ffilmiau. Mae wedi gweithio gyda Gofal Iechyd MIND ac wedi cydweithio gyda theuluoedd. Ymunodd a'r Ymddiriedolaeth yn 2018. Dywedodd mai breuddwyd cynghorwyr lleol oedd adeiladu bont rhwng y gymuned leol a'r Cyngor Sir, i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y gymuned ar lawr gwlad ac i gynnig sgiliau ag ysbrydoliaeth, megis helpu i ddatblygu cynlluniau busnes. Eglurodd Rob y buont yn dawel yn gyhoeddus ond i lawer fod yn digwydd yn y cefndir. Bu'r Ymddiriedolaeth yn cynnal ymchwil gyda grwpiau eraill ar draws y DU. Mae cynlluniau ar y gweill i newid mannau eraill ym Mae Colwyn i ysbrydoli / tynnu'r gymuned leol i mewn ymhellach.

Eglurodd Menna, Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth mai ei chefnidir hi oedd yn y Celfyddydau Gweledol. Bu'n gysylltiedig yn flaenorol gyda chynllun adnewyddu yng Nghaernarfon gan weithio gyda Theatr Galeri. Dywedodd Menna fod yr Ymddiriedolaeth angen cael y partneriaid iawn. Bydd y Cyngor Tref yn derbyn diweddariadau rheolaidd a gwahoddiad i ymweld â'r adeilad ar ei newydd wedd. Bydd rhif 7 yn cael ei lansio'n dawel a bydd cyfle i aelodau etholedig cael edrych o gwmpas. Fe ofynnir hefyd i'r Cyngor Tref enwebu cynrychiolydd i'r bwrdd ymgynghorol newydd. Fe hoffai'r Ymddiriedolaeth cydweithio a'r Cyngor Tref i helpu gyda'u gweledigaeth / ethos o fewn y gymuned. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cais am gefnogaeth ariannol, gan y Cyngor Tref ac mae eisoes wedi derbyn cefnogaeth ariannol oddi wrth Gronfa Treftadaeth y Celfyddydau a ChBS Conwy sy'n warantedig am dair blynedd.

Dywedodd Judi Greenwood bu'r Ymddiriedolaeth yn destun siarad am beth amser ond mae angen bod yn gynaliadwy gyda chyllid a chefnogaeth er mwyn cadw'r momentwm i fynd (unwaith daw THI i ben) a chreu ysgogiad economaidd o gwmpas adfywio canol y dref. Fe ddylai rhif 7 bod yn barod erbyn canol Tachwedd.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Hughes bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn datblygu dros 20 mlynedd a bod tystiolaeth yn dangos bod Ymddiriedolaethau Datblygu megis hwn yn gweithio ar draws y wlad. Nod yr Ymddiriedolaeth yw bod yn hunan cynaliadwy ond bod angen cefnogaeth yn y lle cyntaf. Mae yna beth synergedd a phrosiect Buddsoddi Lleol Ward Glyn (Loteri).

Mewn ateb i gwestiwn dywedodd Judi bod ffrynt gwreiddiol y siop ar Ffordd Abergele wedi cael ei ailosod ac fe arbedwyd nifer o'r nodweddion gwreiddiol.

Diolchodd y Maer i Rob, Menna a Judi am y cyflwyniad ac yna gadawsant y cyfarfod.

**b) Cyfyngiadau Cyflymdra 20 m.y.a.:**

Croesawyd Mr Andrew Wilkinson, Swyddog Traffig CBS Conwy i'r cyfarfod gan y Maer. Roedd Mr Wilkinson yn bresennol yn y cyfarfod yn lle Mr Vic Turner, Swyddog Traffig CBS Conwy oedd wedi ymddiheuro oherwydd gwaeledd.

Dywedodd Mr Wilkinson bod ganddo ddau beth oedd eisiau trafod: lleoliadau arfaethedig ar gyfer cyfyngu cyflymdra i 20 m.y.a. a deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru. Cytunodd bod cyflymdra isel yn lleihau'r nifer o ddamweiniau a bod cefnogaeth i hyn yn lleol, ond mae angen dulliau ymarferol i gyflawni hyn (traffig arafach). Fe roddir / cefnogir y canllawiau presennol gan ROSPA, Cymdeithas Prif Gwnstabiliaid a Chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. Nid yw gostwng cyflymdra traffig trwy osod arwyddion yn ei hun yn gwneud i bobl yrru'n arafach. Gall yr Heddlu gorfodi'r gyfraith ond fe hoffant gael cyfyngiad ar gyflymdra sy'n addas ar gyfer cyflwr y ffordd. Oherwydd y nifer o geisiadau a dderbyniwyd, ni chaiff cyfyngiadau 20 m.y.a. eu hystyried oni bai bo'r cyfyngiad presennol yn 30 m.y.a., bod y rhyngweithiad rhwng defnyddwyr ffyrdd a cherbydau yn ffactor arwyddocaol (e.e. dim palmentydd, diffyg gwelediad oherwydd parcio ceir, neu mewn cyffiniau safleoedd ysgolion). Hefyd mae angen tawelu traffig pan fo cyfartaledd cyflymdra yn fwy na 24 m.y.a.. Rhaid hefyd ystyried y gost ag amser y broses gyfreithiol. Gall hyn cymryd hyd at flwyddyn.

Yna cyfeiriodd Mr Wilkinson at y wybodaeth newydd gan Lywodraeth Cymru: ym Mai 2019, sefydlwyd tasglu i ystyried 20 m.y.a. i fod yn gyfyngiad safonol ar draws pob ardal breswyl yng Nghymru. Trafodwyd yr argymhelliad yn y Senedd yng Ngorffennaf ac fe'i derbyniwyd. Mae ymateb y Gweinidog yn rhoi mwy o fanylion gyda'r bwriad i'r is-ddeddfwriaeth ddod i rym erbyn Hydref 2021. Bydd hyn yn creu newid cymdeithasol o bwys, gyda gorfodaeth rymus ar y dechrau. Yna bydd yr Awdurdod Lleol yn cael cyfnod o 18 mis i weithredu'r ddeddfwriaeth newydd. Caiff lobio am gyllid, adolygu gweithredoedd, adolygu arwyddion a Gorchmynion Traffig eu symleiddio. Bydd angen newid Rheolau'r Ffordd Fawr a phroffion gyrru. Cymru fydd y wlad gyntaf yn y byd i gael 20 m.y.a. i fod yn gyfyngiad cyflymdra safonol. Roedd Mr Wilkinson o'r farn, oherwydd y ddeddfwriaeth sydd ar ddod, na fyddai creu mwy o barthau 20 m.y.a. ar hyn o bryd y defnydd orau o amser yr adran traffig. Pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym, efallai bydd manau sy'n bennaf yn ddibreswyl, megis y Promenâd, yn gorfod mynd trwy broses o ymgynghori er mwyn cael sylwadau'r defnyddwyr, neu fel arall fe ellir ei ystyried i fod yn eithriad a pharhau i fod yn 30 m.y.a..

Diolchodd y Maer i Mr Wilkinson am ei gyflwyniad a gwahoddiwyd cwestiynau / sylwadau gan yr Aelodau: Roedd nifer o'r Aelodau yn cefnogi'r cynigion i ymestyn y parthau 20 m.y.a. Fe gefnogwyd cynnal, ymgyrch marchnata hefyd gan fod y Promenâd yn cael ei ddefnyddio fel llwybr dianc - rhaid i fodurwyr a beicwyr sy'n defnyddio'r Promenâd bod yn fwy ymwybodol. Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen ymdrin â'r Promenâd nawr, neu fel arall fe gymerith o leiaf 2½ flwyddyn cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym ac i'r cyfyngiad newydd gael ei gyflwyno. Cytunwyd bod 20 m.y.a. yn gwneud synnwyr er mwyn diogelu'r cyhoedd, ond nid oedd data ar gael am y nifer o ddamweiniau a ddigwyddodd ar y Promenâd ac fe awgrymwyd hefyd y gellir gosod cyfyngiad o 20 m.y.a. ar adegau penodol yn ystod oriau dydd. Dywedodd Mr Wilkinson wrth yr Aelodau bydd angen i'r Promenâd cael sylw ychwanegol, nid arwyddion yn unig, gan fod cyflymdra naturiol y ffordd

yn 30-35 m.y.a. Roedd yn gefnogol o gyfyngiad o 20 m.y.a. ond ni ellir cyflawn i hyn trwy arwyddion yn unig.

Dywedodd yr Aelodau bod Old Highway hefyd yn ffordd oedd yn cael ei ddefnyddio fel llwybr dianc gyda materion yn ymwneud a chyflymdra / diogelwch a dim palmentydd, a gofynnwyd i'r ffordd cael ei ystyried i fod yn barth 20 m.y.a. hefyd. Fe nodwyd bod aelodau Ward Glyn yn cael nifer o geisiadau gan drigolion i leihau'r cyflymdra ar Old Highway. Cefnogwyd y cais hwn gan yr Aelodau.

Yna gwahoddwyd nifer o aelodau'r cyhoedd oedd yn bresennol i ddatgan eu sylwadau. Mynegwyd cefnogaeth i'r cyfyngiad cyflymdra o 20 m.y.a. arfaethedig ar y Promenâd. Mae cyflymdra moduron wedi codi ers culhau'r ffordd (rhwng Rhos Point a Rhodfa Penrhyn) ac fe all traffig bod yn brysur tan 10pm.

***Penderfynwyd dod a'r eitemau canlynol oedd ar yr agenda ymlaen er mwyn cael eu trafod yn y pwynt yma yn y cyfarfod.***

#### **105/20 Materion yn Codi - Cofnodion 75/20 a 95/20 – Parthau 20 m.y.a.:**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y cynigion am barthau 20 m.y.a. ar gyfer:

- i) Ar hyd yr holl Bromenâd o Landrillo yn Rhos i Hen Golwyn
- ii) Cambrian Drive, Llandrillo yn Rhos
- iii) Old Highway, Bae Colwyn (ychwanegwyd yn ystod y drafodaeth ar eitem 104/20 uchod).

***Penderfynwyd ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd CBS Conwy i ofyn iddynt ystyried gweithredu parthau 20 m.y.a. yn y tair ardal: ar hyd yr holl Bromenâd o Rhos Point i Hen Golwyn; Old Highway o Nant y Glyn hyd at Kings Road a Cambrian Drive, Llandrillo yn Rhos.***

Yna gadawodd Mr Wilkinson y cyfarfod, ynghyd a nifer o'r cyhoedd.

#### **106/20 Cofnodion:**

- a) ***Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb***
  - i) ***Cofnodion Cyfarfod Arferol diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 7<sup>fed</sup> Medi 2020.***
- b) ***Penderfynwyd derbyn a nodi cofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
  - i. ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 15<sup>fed</sup> Medi a 6<sup>ed</sup> Hydref 2020 (drafft)***
  - ii ***Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 30<sup>ain</sup> Medi 2020 (drafft)***
  - iii ***Nodiadau Cyfarfod Grŵp Llywio Cynllun Cymuned / Lle a gynhaliwyd ar 28<sup>ain</sup> Medi 2020.***
  - iv ***Nodiadau Cyfarfod Gweithgor Sul y Cofio a gynhaliwyd ar 15<sup>fed</sup> Medi 2020.***

#### **c) Y Tîm Ymateb i'r Argyfwng Pandemig (TYAP):**

Fe nodwyd bod TYAP yn parhau i gyfarfod pob bythefnos a bod nodiadau'r cyfarfodydd yn cael eu hanfon at bob Aelod.

*Penderfynwyd derbyn y nodiadau'n ffurfiol ac i gadarnhau penderfyniadau'r Tîm am y cyfnod o 17<sup>eg</sup> Medi hyd at 15<sup>fed</sup> Hydref 2020.*

**107/20 Materion yn Codi o'r Cofnodion:**

**a) Cofnod 80/20 - Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn:**

Fe nodwyd y derbyniwyd cais ar lafar i ailosod y gyllideb o £15,000 fel cyfraniad tuag at gam datblygu'r prosiect. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth, ysgrifenedig, oddi wrth Mark Roberts, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth.

*Penderfynwyd gohirio ystyried y cais hyd nes y derbynnir mwy o wybodaeth oddi wrth yr Ymddiriedolaeth am bwrpas y cyllid a tharddiad / maint y cyllid cyfatebol gan yr Ymddiriedolaeth tuag at y cam nesaf.*

**b) Cofnod 99/20(b) – Dyfodol Maes Parcio CBS Conwy, Rhodfa Colwyn, Llandrillo yn Rhos (y rhan isaf ger Le Sport):**

Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd P. Richards am y drafodaeth yng nghyfarfod diweddar Fforwm Ardal Leol CBS Conwy. Dywedodd Cynghorydd Richards nad oedd unrhyw fwriad sylweddol gan ERF ac roedd yn ymddangos bod neb eisiau gwneud penderfyniad. Fe nodwyd yr anghytundeb parhaus rhwng Le Sport a CBS Conwy ac mae'n angenrheidiol i wneud penderfyniad buan er mwyn atal unrhyw broblemau pellach ynglŷn â llifogydd. Fe gynigiwyd buasai gosod ffos Ffrengig yn ateb y broblem. Ychwanegodd y Cynghorydd Hughes bod dewisiadau eraill wedi cael eu trafod ond am fod Rhos Point yn newid dwylaw yn y dyfodol agos bydd mwy o alwad am lefydd parcio.

**c) Cofnod 82/20 – Gwaith ar Neuadd y Dref:**

- i) Fe nodwyd gan yr Aelodau y disgwylir am bris gan Brenig Construction. Roeddynt wedi awgrymu newid y cwteri bwrw haearn gyda chwteri alwminiwm a fyddai'n parhau am gyfnod hirach ac yn ysgafnach.
- ii) Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y Clerc yn disgwyl manylion am contractwyr toeau eraill gyda phrofiad yn y math yma o waith er mwyn cael pris(iau) ychwanegol.
- iii) Fe gadarnhawyd gan gyfreithiwr TAW Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, os bydd cyfanswm TAW am yr holl anfonebau am yr ystafelloedd / rhannau eraill o'r safle sy'n cael ei rhentu / prydlesu i eraill yn fwy na £7,500 mewn unrhyw flwyddyn treth, yna ni ellir adennill unrhyw dreth mewnbwn sy'n priodoladwy i'r cyflenwadau eithriedig. Bydd hyn yn golygu felly, nid yn unig ni ellir adennill y TAW ar atgyweiriadau / cynnal a chadw, ond hefyd, ni ellir adennill TAW ar gostau TAW eraill sy'n berthnasol i eiddo eleni (gwasanaethau, larymau tân, cynnal a chadw ayb). Felly, fydd y Clerc yn gorfod mynd trwy ddull eithriad rhannol i gyfrifo pa dreth mewnbwn gellir ei briodoli i weithgareddau heb fod yn ymwneud a busnes, megis gweinyddu busnes y Cyngor, er mwyn gallu cael amcangyfrif o effaith hyn (gan na logwyd ystafelloedd Neuadd y Dref

ers 1<sup>af</sup> Ebrill, gall hon fod y flwyddyn ariannol orau i gwblhau'r gwaith - efallai gellir cael anfoneb ar wahân ar gyfer rhan Neuadd y Dref.

Fe nodwyd bod y Clerc am gyflwyno adroddiad mwy manwl yn y man.

Roedd yr Aelodau yn cefnogi mai cymryd mwy o amser byddai'r penderfyniad orau.

**ch) Cofnod 82/20(b) – Llwybr Cerflun:**

Cyflwynodd y Clerc copi o'r ffurflen gais i Gwynt y Môr ac fe nodwyd gan yr Aelodau i'r cais am grant fod yn llwyddiannus (i'w gyflwyno mewn partneriaeth gyda phrosiect Dychmygu). Derbyniwyd / nodwyd y llythyr cynnig y grant gan yr Aelodau.

*Penderfynwyd cymeradwyo llofnodi'r llythyr derbyn y grant.*

**d) Cofnod 86/20 - Tystysgrif Gwasanaeth:**

Gofynnwyd i'r Aelodau cadarnhau'r argymhelliad i gyflwyno tystysgrifau gwasanaeth i Aelodau sy'n ymadael o'u swyddi.

*Penderfynwyd cadarnhau'r argymhelliad a chyflwyno tystysgrifau gwasanaeth yn ddi-oed.*

**dd) Cofnod 87/20 – Glanhau Strydoedd:**

Fe nodwyd sylw a wnaed gan Andrew Wilkinson, a gofynnwyd i'r Aelodau cymeradwyo cyllid o hyd at 5 diwrnod i lanhau strydoedd canol y dref. Tynnwyd sylw at hyn gan Gynghorydd oedd yn poeni am faint y staeniau yn yr ardal cerdded. Roedd aelod o'r cyhoedd a fu'n ymweld â'r Farchnad Crefftwaith wedi cyfeirio at hyn hefyd. Cefnogwyd y cynnig gan yr aelodau ond fe ddywedwyd dylai hyn fod yn broses parhaol.

*Penderfynwyd cymeradwyo cyllid o hyd at 5 diwrnod ychwanegol i lanhau'r manau cerdded yng nghanol y Dref am gost o hyd at £2,500.*

**e) Cofnod 91/20 – Grantiau Bychan:**

Cyflwynodd y Clerc mwy o wybodaeth ynglŷn â chais X a'r argymhelliad i gymeradwyo ceisiadau Y a Z am grantiau bychan. Ailystyriwyd gan yr Aelodau, y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd. Fodd bynnag, nid oeddynt yn teimlo bod digon o wybodaeth ynglŷn â sut fyddai'r gwasanaethau yn parhau i fod ar gael yn ystod y pandemig presennol a gofynnwyd hefyd a oedd y lleoliad newydd yn addas i bobl gydag anableddau.

*Penderfynwyd cymeradwyo ceisiadau Y a Z ond i wrthod cais X y tro hwn, a gofyn i'r Clerc esbonio'r rhesymau am wrthod i'r ymgeisydd.*

**f) *Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y cofnodion.***

Cyflwynodd y Clerc cyngor ynglyn a chynnal gwasanaethau coffa yn 2020 a gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod cyfarfod dilynol y grŵp sy'n trefnu i gael ei gynnal ar 20<sup>fed</sup> Hydref.

Eleni, y cynnig yw na chynhelir gwasanaeth ger y Gofeb am 10.45am ar Sul y Cofio, oherwydd byddai'n amhosibl cyfyngu ar y nifer oedd yn bresennol. Yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfod oedd: gofyn i bobl cynnal 2 funud o dawelwch ar eu stepen drws, dangos lluniau pabi yn eu ffenestri, gwasanaeth eglwys ar-lein a gwasanaeth radio. Fe nodwyd bod Kind Bay Initiative hefyd wedi rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol am baentio cerrig crynion. Roedd yr Aelodau o'r farn byddai paentio cerrig crynion yn well syniad ar gyfer blwyddyn nesaf pan fydd y cyfyngiadau ar adael cartrefi wedi codi. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau y byddai'n cyhoeddi datganiad i'r wasg yn dilyn y cyfarfod ar yr 20<sup>fed</sup> fel bydd y cyhoedd yn gwybod am y trefniadau. Bydd y Maer yn gosod torch ger Cofebion Bae Colwyn a Hen Golwyn hefyd ac fe wahoddir mudiadau eraill i osod torchau.

**109/20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

- a) **Swyddog Etholiadol:** Fe nodwyd gan yr Aelodau y galwyd am etholiad am safle gwag yn Ward Colwyn a'i fod wedi ei ohirio tan Chwefror 2021.
- b) **Cyfarfod Bwrdd Strategaeth Byw yn y Bae:** Mynychwyd y cyfarfod gan y Cynghorwyr Chris Hughes a Paul Richards ac fe gyflwynwyd adroddiad byr ganddynt. Roeddynt yn poeni am y diffyg opsiynau oedd ar gael mewn perthynas â'r ymgynghoriad am y cynigion ar gyfer canol y dref. Un yn unig a gyflwynwyd. Roedd yna bryderon hefyd am y system un ffordd arfaethedig a'r effaith byddai hyn yn cael ar ganol y dref ag ar y ffyrdd cyfagos. Byddai'n effeithio ar lwybr y bysiau hefyd, gyda'r rhai hynny oedd am newid bws yn gorfod cerdded ymhellach. Fe nodwyd hefyd mai perchennog y tir i greu 'Sgwâr St Paul' oedd yr Eglwys yng Nghymru ac ni ellid ei ryddhau heb gostau. Awgrymodd yr aelodau y dylid cynnal cyfarfod Arbennig i drafod hyn ymhellach, cyn ymateb i'r ymgynghoriad. Fe anfonir gwahoddiad i swyddogion CBS Conwy.
- c) **Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned:** Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod diweddar a fynychwyd ganddi gyda Chynghorwyr N. Bastow, C. Brockley ag M. Worth. Fe gyflwynwyd adroddiad ariannol oedd yn dangos effaith Covid 19 ar y bwloch cyllid sylweddol yng nghyllideb blwyddyn nesaf. Cafwyd trafodaeth am y cynnydd yn lefel y dreth cyngor a bod angen cymorth parhaol gan gynghorau tref a chymuned tuag at nifer o wasanaethau, yn cynnwys meysydd chwarae. Fe nodwyd nad oedd adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Chwarae i gael ei gyflwyno i'r Cabinet / Pwyllgor Craffu tan Ionawr 2021, ond mae'n debygol bydd yn cynnwys opsiynau / argymhellion i roi'r gorau i gynnal a chadw nifer o feysydd chwarae ar draws y Sir. Adroddodd y Clerc hefyd am glefyd Gwywiad Coed Ynn, ac fe ddywedwyd yn y cyfarfod y disgwylir colli 90% o goed ynn oherwydd pathogen ffwngaid ag oddeutu 40% o'r coed ar draws y Sir (yn cynnwys ochrau ffyrdd) yn goed ynn.

Y teimlad oedd byddai lleihau'r nifer o feysydd chwarae yn niweidiol i'n pobl ieuanc. Dywedwyd bod CBS Conwy wedi datgan bod Cynghorau Tref a Chymuned mewn gwell sefyllfa i godi refeniw i gyflwyno gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, fe nodwyd na chafodd CBSC ei chapio ac fe ddadleuwyd hyn yn gryf gan rai o'r aelodau lleol oedd yn bresennol.

Fe nodwyd y cynhelir cymorthfeydd / cyfarfodydd dilynol i amlinellu'r gefnogaeth sydd ei angen i barhau gyda gwasanaethau yn 2021/22.

**ch) Adroddiad Blynyddol TCC (2019/20):** Nodwyd hwn gan yr Aelodau.

*Penderfynwyd cymeradwyo talu'r anfoneb am gynnal a chadw camerâu Bae Colwyn am 2020/21 (£11,088).*

**d) Ymgynghoriad Canol y Dref (daw i ben ar 31<sup>ain</sup> Hydref)**

*Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyngor Arbennig, dydd Llun 26<sup>ain</sup> Hydref i drafod y mater hwn ac i benderfynu ar ymateb i'r ymgynghoriad.*

**dd) Digwyddiadau CBS Conwy:** Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfod a gynhaliwyd wythnos diwethaf gyda Tîm Digwyddiadau CBSC. Cafodd digwyddiad Goleufa ei ohirio oherwydd y cyfyngiad ar ddigwyddiadau allanol. Mynegwyd pryder am y posibilrwydd o gollu Ffordd yr Orsaf fel man i ddigwyddiadau ac am y costau o gau'r ffyrdd. Dywedodd y Clerc bod y Tîm yn ymddiheuro am y diffyg rhybudd am gyngerdd Olly Murs. Roedd allan o'u dwylaw hwy a dywedwyd efallai fe gynhelir digwyddiad ar yr ail neu hyd yn oed y drydedd noson. Fe drafodwyd hefyd Gŵyl y Pedwardegau oherwydd efallai bydd y cyfyngiadau dal i fod mewn grym yn Ebrill 2021.

*Penderfynwyd cynnwys ystyried dyddiad Gŵyl y Pedwardegau 2021 ar agenda'r Cyfarfod Arbennig sydd i'w gynnal dydd llun 26<sup>ain</sup> Hydref 2020*

**110/20 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol:**

Cyflwynodd y Clerc drafft o adroddiad blynyddol 2021/22 ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau. Cynigiwyd y dylid amnewid tabl 9 adran 13.34 (tudalen 45) i wneud yn eglur dylid addasu taliadau i unrhyw aelod sy'n ymuno neu yn gadael yn ystod y flwyddyn drefol.

*Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon ymateb i wneud y cais hwn.*

**111/20 Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am drethi annomestig eiddo gwag ag ymateb drafft y Gymdeithas. Fe awgrymwyd bod angen grymuso Adran 3.

*Penderfynwyd bod y Clerc i ysgrifennu at y Gymdeithas gyda sylwadau'r Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 pm

.....Cadeirydd